

YSGOL
ABERCONWY



Crynodeb Estyn

2025





“ Mae Ysgol Aberconwy yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu parchu. ”

Yn ystod mis Hydref 2025, croesawyd arolygwyr Estyn* i Ysgol Aberconwy, fel y gallent gyfarfod â disgyblion, staff a rhieni, tra hefyd yn cael y cyfle i weld ein gwersi a'n gweithgareddau allgyrsiol.

Dros y blynyddoedd diwethaf ac ers y pandemig yn benodol, rydym wedi cyflwyno prosesau a gweithdrefnau newydd i sicrhau ein bod fel ysgol yn cefnogi ac yn datblygu ein disgyblion i fod y gorau y gallant fod. Rwy'n falch o ddweud bod yr adroddiad a dderbyniwyd gennym yn tynnu sylw'n gadarnhaol at effaith y newidiadau a gyflwynwyd gennym.

Rydym wrth ein bodd bod arolygwyr Estyn wedi cydnabod ein gwaith caled a'n hymroddiad, gan nodi bod ethos cynhwysol, cefnogol a meithringar Ysgol Aberconwy yn cael effaith fuddiol sylweddol ar lesiant a datblygiad personol disgyblion. Rydym yn hynod falch o'n disgyblion a ddisgrifiwyd, fel bob amser, fel disgyblion cwrtais a pharchus tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Yn ystod yr arolwg, arolygodd Estyn yr ysgol mewn tair maes allweddol, ac rydym wedi crynhoi'r rhain yn y ddogfen hon i chi:

1. Addysgu a Dysgu
2. Llesiant, Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad
3. Arwain a Gwella

Wrth symud ymlaen fel ysgol, byddwn yn parhau i weithio ar ein cynllun datblygu, a byddwn yn ei rannu ag Estyn wrth iddynt nodi mesurau arbennig y maent yn teimlo sy'n angenrheidiol i'n cefnogi yn ein taith ddatblygu. Byddwn, fel bob amser, yn parhau i wella a chanolbwyntio ar y meysydd lle gwyddom fod angen datblygiad o'r fath.

Hoffwn ddiolch yn bersonol i bob disgybl, rhiant ac aelod o staff am eu holl waith caled nid yn unig yn y cyfnod cyn yr arolwg ond hefyd yn ystod yr arolwg ac ar ôl hynny. Gyda'n gilydd rydym yn gweithio tuag at ein cenhadaeth i ysbrydoli, cefnogi a llwyddo.

Ian Gerrard
Pennaeth

*Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

1. Addysgu a Dysgu

Mae Estyn yn dweud:

- Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi.
- Mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn mwynhau bod yn rhan o gymuned yr ysgol ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u hathrawon a'u cyfoedion.
- Mae llawer o athrawon yn sefydlu perthnasoedd gwaith pwrpasol gyda disgyblion.
- Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda ac yn ymateb i ddisgwyliadau staff.
- Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas pan fo'r addysgu'n effeithiol.
- Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas gyda'u sgiliau digidol.
- Yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae'r cwricwlwm yn eang ac yn gytbwys.
- Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r ystod eang o deithiau ac ymweliadau, sy'n cyfrannu at eu cysylltiad cryf â'u hysgol, a'u parch tuag ati.

Mewn ymateb i argymhellion Estyn, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gysondeb her, modelu ac esboniadau; cywirdeb ac effaith adborth; cywirdeb darllen, geirfa ac ysgrifennu estynedig disgyblion; a chyflymder cynnydd mewn rhai gwersi.




2. Llesiant, Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad

Mae Estyn yn dweud:

- Mae Ysgol Aberconwy yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, ac yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.
- Mae diwylliant diogelu cadarnhaol lle mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel pan fyddant yn yr ysgol.
- Mae'r perthnasoedd rhwng staff a disgyblion yn gefnogol.
- Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda o amgylch yr ysgol.
- Mae disgyblion yn elwa o gyfleoedd ystyrlon i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o amrywiaeth.
- Mae amrywiaeth yn cael ei dathlu ledled yr ysgol.
- Mae'r disgyblion yn falch o fod yn rhan o gymuned eu hysgol.
- Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o glybiau allgyrsiol, sy'n cael eu mynychu'n dda.
- Mae'r ysgol yn darparu ystod o amgylcheddau cefnogol lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael gofal.
- Mae'r canolfannau adnoddau dysgu yn darparu amgylcheddau tawel a chefnogol sy'n hyrwyddo diogelwch a rheoleiddio emosiynol.
- Mae perthnasoedd cryf rhwng staff a disgyblion yn nodweddu'r amgylcheddau dysgu yn y canolfannau hyn.
- Mae'r ganolfan ABCD yn darparu cefnogaeth wedi'i thargedu ddefnyddiol i ddisgyblion wella eu sgiliau llythrennedd.
- Mae mwyafrif y disgyblion mewn ymyriadau cymdeithasol ac emosiynol yn gwella rheoleiddio ac ymgysylltu'n dda.
- Mae trefniadau ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn cefnogi datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion.
- Mae staff bugeiliol yn ymateb yn briodol i bryderon, gan gynnwys achosion o fwlio.
- Mae prosesau opsiynau a phontio wedi'u trefnu'n dda.
- Mae disgyblion yn derbyn cyngor diduedd sy'n eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus.

Mewn ymateb i argymhellion Estyn, byddwn yn parhau i weithio i wella presenoldeb; gan gefnogi lleiafrif o ddisgyblion i gynnal canolbwyntio mewn nifer fach o wersi a chefnogi'r rhai sydd â sgiliau llythrennedd a rhifedd gwannach i ddatblygu eu hyder.



3. Arwain a Gwella

Mae Estyn yn dweud:

- Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth feddylgar gyda chynhwysiant a lles wrth wraidd ei weledigaeth.
- Mae cenhadaeth a gwerthoedd yr ysgol yn cael eu deall yn dda a'u croesawu gan ddisgyblion, staff a llywodraethwyr.
- Mae arweinwyr wedi cryfhau'r uwch dîm arweinyddiaeth i gynyddu capasiti.
- Mae llywodraethwyr yn darparu lefelau uchel o gefnogaeth a her briodol.
- Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a'r llywodraethwyr yn rheoli'r gyllideb yn effeithiol.
- Mae arweinwyr yn greadigol o ran atebion i heriau staffio.
- Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar hunaniaeth leol ('Cynefin').
- Mae arweinwyr yn hyrwyddo manteision dysgu'r iaith Gymraeg yn dda.
- Mae cysylltiadau â'r Urdd yn gwella profiadau disgyblion.
- Mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg.
- Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygu arweinyddiaeth disgyblion.
- Mae cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb.
- Mae arweinwyr a staff yn dangos ymrwymiad cryf i ddiogelu.

Mewn ymateb i argymhellion Estyn, fel ysgol byddwn yn canolbwyntio ar gryfhau'r cylch gwerthuso a gwella ysgol gyfan; sicrhau bod gan arweinwyr canol y systemau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i arwain gwelliant yn effeithiol; alinio dysgu proffesiynol â blaenoriaethau addysgu a dysgu.

I weld yr adroddiad llawn ewch i [wefan Estyn](#).

